

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MEDI 2021

Derbyn adroddiad clerch y dref (copi'n amgaeedig).

3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad clerch y dref (copi'n amgaeedig).

4. EITEM GAN AELOD

Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i wahoddiad gael ei roi i Mr Gareth Roberts, Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Adfywio a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ddinbych i roddi diweddariad ar y cynnydd ar y bid i'r gronfa Codi'r Gwastad.

5. SIAMBR Y CYNGOR

Derbyn diweddariad llafar gan Glerech y Dref.

6. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth hystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

7. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (copi'n amgaeedig) a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt.

8. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2022/23 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ystyried, diwygio a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Cyllideb 2022/23 gan gynnwys Cynllun diwygiedig Adfer Cronfeydd Wrth Gefn Pum Mlynedd ar gyfer eu hargymell i gyfarfod y cyngor sydd i'w gynnal ar 15fed Rhagfyr 2021, ac argymell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.

[Atgoffir yr aelodau y gallent, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am wybodaeth fanylach ar y ffigurau neu unrhyw faterion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd o bryder gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol/Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol]

9. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.